

# CYFARFOD PENDERFYNIADAU AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS GWASANAETHAU TECHNEGOL

Dydd Gwener, 27 Tachwedd 2015

**PRESENT:** Cynghorydd H.A.L. Evans – Aelod y Bwrdd Gweithredol dros Gwasanaethau Technegol

## **Roedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**

J. McEvoy, Road Safety & Traffic Manager  
S. Pilliner, Pennaeth Trafnidiaeth a Pheirianeg  
K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

## **Neuadd y Sir, Caerfyrddin 9.30 - 10.05 am**

### **1. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL**

Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant personol

### **2. GWAHARDD GYRRU, CILFFORDD SYDD AR AGOR I UNRHYW DRAFFIG (BOAT) 57/74, LLWYBR ILLTUD SANT RHWNG PORTH TYWYN A PHENYMYNYDD**

Bu'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried adroddiad ynghylch cynigion i gyflwyno Gorchymyn Gwahardd Gyrru ar hyd y Gilffordd sydd ar Agor i Unrhyw Draffig (BOAT) Rhif 57/74 o'i chyffordd â Heol Ddu (U2323) ym Mhenymynydd am bellter o 1.7 cilometr, fel y manylwyd ar y cynllun a atodwyd i'r adroddiad, gan fod y llwybr yn cael ei ystyried yn anniogel i gerbydau motor. Pe bai'n cael ei fabwysiadu, byddai'r gorchymyn yn cynnig nifer o eithriadau er mwyn caniatáu i gerddwyr, ceffylau, beicwyr, beiciau modur a phreswylwyr sy'n byw ar hyd y BOAT deithio ar hyd y llwybr hwn.

Rhodddwyd gwybod i'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol, yn sgil cyhoeddi'r cynnig, nad oedd unrhyw wrthwynebiadau wedi dod i law oddi wrth yr ymgylgoreion statudol. Fodd bynnag, roedd 5 gwrthwynebiad, a deiseb wedi dod i law, (fel y manylwyd yn yr adroddiad ynghyd ag ymatebion yr adrannau iddynt), ac roedd y prif wrthwynebiad yn erbyn y cynnig i ganiatáu eithriad i feiciau modur deithio ar hyd y BOAT. Ar ôl ystyried y gwrthwynebiadau hynny, argymhellwyd bod y Gorchymyn yn cael ei gyhoeddi yn amodol ar ddileu'r eithriad i feiciau modur h.y. gwahardd beiciau modur rhag teithio ar hyd y BOAT.

**PENDERFYNWYD nodi'r gwrthwynebiadau a oedd wedi dod i law i'r Gorchymyn Gwahardd Gyrru arfaethedig ar hyd y BOAT rhif 57/74, ond bod y Gorchymyn Rheoleiddio Traffig yn cael ei gyflwyno'n amodol ar ddileu'r eithriad ar gyfer beiciau modur h.y. gwahardd beiciau modur rhag teithio ar hyd y BOAT**

### **3. GWRTHWYNEBIAD I'R MANNAU PARCIO ARFAETHEDIG I BOBL ANABL - Y LÔN Y TU CEFN I HEOL MORLAIS, YR HENDY.**

Rhodddwyd gwybod i'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol fod yr Awdurdod wedi darparu

yn y gorffennol, ar sail anffurfiol, ddau o fannau parcio i bobl anabl ar y lôn y tu cefn i Heol Morlais, Llanelli, fel y manylwyd ar y cynllun a atodwyd i'r adroddiad, a bod cais wedi dod i law bellach i ffurfioli'r ddarpariaeth honno er mwyn iddynt allu cael eu gorfodi gan Swyddogion Gorfodi Materion Sifil y Cyngor.

Dywedodd y Rheolwr Traffig a Diogelwch Ffyrdd, yn sgil cyhoeddi'r cynnig, nad oedd unrhyw wrthwynebiadau wedi dod i law oddi wrth yr ymgynghoreion statudol, fodd bynnag, roedd un gwrthwynebiad wedi dod i law oddi wrth breswlydd lleol ar sail y farn nad oedd angen mwy nag un man parcio, ac y byddai darparu dau o fannau parcio yn arwain at breswylwyr yn gorfod parcio mewn strydoedd cyfagos. Rhoddodd y Rheolwr Traffig a Diogelwch Ffyrdd wybod fod dau o fannau parcio'n cael eu cynnig ar y sail bod dau breswlydd eu hangen a bod digon o le ar y ffordd ac oddi ar y ffordd i thua 20 cerbyd barcio.

#### **PENDERFYNWYD**

**3.1 nodi'r gwrthwynebiad a oedd wedi dod i law i'r cynnig i gyflwyno Gorchymyn Rheoleiddio Traffig ar gyfer darparu dau o fannau parcio i bobl anabl ar y lôn y tu cefn i Heol Morlais Llanelli, ond bod y Cyngor yn bwrw ymlaen â gwneud y Gorchymyn,**

**3.2 rhoi gwybod i'r gwrthwynebydd am benderfyniad y Cyngor**

#### **4. GWRTHWYNEBIADAU I ORCHYMYN ARFAETHEDIG SEF GORCHYMYN CYDGYFNERTHU SIR GAERFYRDDIN (LLANELLI) (CYFYNGU AR AROS A MANNAU PARCIO AR Y STRYD)**

Bu'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried adroddiad ynghylch cynigion y Cyngor i wneud Gorchymyn a fyddai'n amrywio Gorchymyn Cydgyfnerthu Sir Gaerfyrddin (Llanelli) (Cyfyngu ar Aros a Mannau Parcio ar y Stryd) fel y gallai gynnwys amrywiol gyfyngiadau newydd ar hyd nifer o briffyrdd yn Llanelli, fel y manylwyd yn yr adroddiad.

Rhoddwyd gwybod nad oedd unrhyw wrthwynebiadau wedi dod i law i'r cynigion oddi wrth yr ymgynghoreion statudol, ond er hynny roedd saith sylw wedi dod i law oddi wrth y cyhoedd, fel y manylwyd yn Atodiad 3 i'r adroddiad ynghyd ag ymatebion yr adran iddynt, ac y rhoddwyd crynodeb ohonynt yng Nghrynodeb Gweithredol yr adroddiad lle cyfeirir atynt yn 4.3, 4.4, 4.5, 4.6 a 4.7.

#### **PENDERFYNWYD**

**4.1 cadarnhau Gorchymyn Cydgyfnerthu Sir Gaerfyrddin (Llanelli) (Cyfyngu ar Aros a Mannau Parcio ar y Stryd) yn amodol ar y newidiadau a gytunwyd gyda'r aelodau lleol ac a fanylwyd yn 4.3, 4.4, 4.5, 4.6 a 4.7 o grynodeb gweithredol yr adroddiad,**

**4.2 rhoi gwybod yn ffurfiol i wrthwynebwyr y Gorchymyn arfaethedig am benderfyniad y Cyngor.**

#### **5. COFNOD PENDERFYNIADAU – 17EG MEDI 2015**

**PENDERFYNWYD Ilofnodi Cofnod Penderfyniadau'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 17eg Medi, 2015, gan ei fod yn gywir.**

---

**CHAIR**

---

**DATE**